| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Mehefin 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg – Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg** |
| **Teitl:** | **Contract TGCh Ysgolion** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu contract TGCh Gweinyddiaeth a Chwricwlwm Ysgolion i Gaia Technologies.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae dau reswm dros lunio'r adroddiad hwn:

- Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo GAIA Technologies fel y darparwr TGCh gorfodol ar gyfer y Rhwydwaith Gweinyddol yn dilyn y broses dendro ddiweddar i gaffael gwasanaeth presennol CSDd yn allanol.

- Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo GAIA Technologies fel y darparwr TGCh opsiynol ar gyfer Rhwydwaith y Cwricwlwm yn dilyn y broses ddiweddar i ail-dendro contract CSDd a ddaeth i ben, a ddyfarnwyd yn flaenorol i GAIA Technologies ar ran rhai ysgolion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo dyfarnu'r contract i GAIA Technologies ar gyfer y rhwydweithiau Gweinyddol a Chwricwlwm.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Rhwydwaith Gweinyddol

Darperir rhwydwaith Gweinyddol yr Ysgol ar hyn o bryd gan TGCh Canolog, a bwriedir dyfarnu'r contract i GAIA Technologies. GAIA yw'r darparwr llwyddiannus yn dilyn y broses dendro ddiweddar. Mae hwn yn gontract gorfodol y mae'n rhaid i'r holl ysgolion fod yn rhan ohono, gan ei fod yn hanfodol bod y contract yn cael ei ddarparu gan un darparwr ar draws yr holl ysgolion, er mwyn cael cysondeb rhwng Ysgolion a'r Sir. Ansawdd y gwasanaeth oedd y brif ystyriaeth drwy gydol y broses, a gofynnwyd i'r darparwyr ystyried yr opsiwn o wasanaeth a reolir yn llawn (gan gynnwys caledwedd) neu wasanaeth cefnogi sylfaenol (caledwedd heb ei gynnwys). Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried model trosglwyddo TUPE llawn, a model staffio a gedwir gan ALl. Mae hyn felly wedi creu 4 opsiwn i'r rhwydwaith Gweinyddol ei ystyried:

1. Gwasanaeth a Reolir yn Llawn – staff a reolir gan ALl.
2. Gwasanaeth Cefnogi – staff a reolir gan ALl.
3. Gwasanaeth a Reolir yn Llawn – TUPE llawn i staff.
4. Gwasanaeth Cefnogi – TUPE llawn i staff.

Mae'r gwasanaeth presennol gyda TGCh Canolog yn wasanaeth cefnogi'n unig ac yn seiliedig ar yr atodlen brisiau a welir yn Atodiad 1, mae'r gwasanaeth newydd gyda GAIA Technologies yn rhoi mwy o ansawdd da am bris gostyngol. Bydd y pris yn dal yn destun gwiriad terfynol o restr eiddo wrth ddyfarnu'r contract, ond bydd y costau uned yn aros yn sefydlog yn unol â'r tendr.

Cwricwlwm

Caiff rhwydwaith Cwricwlwm yr Ysgol ei gaffael yn allanol ar hyn o bryd, a chaiff ei reoli'n lleol gan ysgolion drwy eu trafodaethau contract eu hunain gyda darparwyr amrywiol. Roedd fframwaith CSDd, a gafodd ei dendro'n flaenorol yn 2009, angen ei adnewyddu 1 Ebrill 2013 ac felly gwnaethpwyd penderfyniad wedi'i ddirprwyo i geisio cymeradwyo estyniad ar y contract hyd at 31 Awst 2013 i ganiatáu i'r contract Cwricwlwm newydd ffurfio rhan o'r un tendr â'r rhwydwaith Gweinyddol. Roedd rhai ysgolion y tu allan i gwmpas y tendr hwn gan nad oeddent yn rhan o gontract gwreiddiol CSDd ar gyfer cwricwlwm, fodd bynnag mae ganddynt yr opsiwn i drosglwyddo i'r contract i ganiatáu un darparwr safonol ar gyfer y ddau rwydwaith os ydynt yn teimlo bod y contract yn cynnig mwy o fuddion iddynt na'u contract cyfredol.

Mae'r contract hwn felly'n ddewisol, ac nid yw ysgolion yn cael eu gorfodi i symud eu contractau cwricwlwm i'r rhwydwaith hwn. Ni wyddys ar hyn o bryd pa ysgolion fydd yn symud i'r contract newydd, fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd ein bod â thua 80% o'n hysgolion ar gontract Gweinyddiaeth a Chwricwlwm cyfunol gyda GAIA Technologies. Bydd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol o ran ansawdd y gwasanaeth, gan ei fod yn fwy effeithiol i gael un darparwr yn gweinyddu'r ddau rwydwaith.

Gofynnwyd i'r darparwyr ystyried yr opsiwn o wasanaeth a reolir yn llawn (yn cynnwys caledwedd), neu wasanaeth cefnogi sylfaenol (heb galedwedd), yn ogystal â model trosglwyddo TUPE llawn a model staffio a gedwir gan ALl. Mae hyn felly wedi creu'r un 4 opsiwn a welir o dan y rhwydwaith Gweinyddol uchod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad hwn yn cefnogi'r flaenoriaeth o Foderneiddio Addysg a chynyddu cyrhaeddiad mewn ysgolion drwy ddefnyddio technoleg gynaliadwy ac effeithiol.

## 6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gweinyddol:

Mae'r tabl isod yn dangos yr arbediad tebygol o'i gymharu â'r gwasanaeth TGCh Canolog cyfredol i ysgolion yn erbyn pob opsiwn a nodir.

*Opsiwn 2A – Rheoli'n llawn gan gynnwys TUPE* yw'r hoff opsiwn i'r Adran Weinyddol er mai hwn sydd â'r arbediad lleiaf oherwydd y gred mai hwn fydd yn rhoi'r gwasanaeth a sefydlogrwydd gorau i ysgolion

| | Opsiwn 2 – Rheolir yn llawn **dim TUPE** | Opsiwn 2 – Cefnogaeth yn unig **dim TUPE** | Opsiwn 2A - Rheolir yn llawn **yn cynnwys TUPE** | Opsiwn 2A Cefnogaeth yn unig yn cynnwys **TUPE** |
|---|---|---|---|---|
| Cost yr SLA presennol gyda TGCh Canolog | £241,000.00 | £241,000.00 | £241,000.00 | £241,000.00 |
| Cost bwriedig yr SLA newydd gyda TGCh Canolog (opsiwn 5) | £142,000.00 | £142,000.00 | £142,000.00 | £142,000.00 |
| **Swm a gedwir tuag at wasanaeth GAIA** | £99,000.00 | £99,000.00 | £99,000.00 | £99,000.00 |
| Gwerth Contract Newydd (yn seiliedig ar restr eiddo ddiwygiedig) | £71,268.00 | £15,540.00 | £97,442.00 | £41,714.00 |
| **Arbediad o dan y contract newydd** | £27,732.00 | £83,460.00 | £1,558.00 | £57,286.00 |
| 1. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau websense hyd at 2015 am gost o 53k. 2015 ymlaen bydd hyn yn trosglwyddo i GAIA a bydd y gost yn lleihau i £40k gan gynhyrchu arbediad pellach o £14k i ysgolion. | | | | |

Cwricwlwm

Mae'n amhosibl darparu cymhariaeth gyffelyb rhwng y gwasanaeth presennol a'r gwasanaeth newydd i'r Cwricwlwm gan fod ysgolion wedi trafod i gael casgliad o "ychwanegiadau" at eu contractau presennol gyda'r darparwr cyfredol, felly byddai'n rhaid iddynt ystyried y cwmpas a gynigir yn y gwasanaeth newydd yn erbyn y cwmpas a ddarperir yn eu gwasanaeth cyfredol wrth wneud penderfyniad ar y rhwydwaith hwn. Mae'r atodlen brisiau yn seiliedig ar restr eiddo ddrafft a bydd yn destun newid yn dilyn archwiliad llawn o offer yn yr ysgol unwaith y bydd y contract yn dechrau. Bydd gan yr ysgolion yr opsiwn o addasu eu gofynion i ateb anghenion lleol. Bydd gwerthoedd yr uned fodd bynnag yn aros yr un peth yn unol â'r atodlen brisiau, fel y rhoddir y gallu i ysgolion gyfrifo eu taliadau yn erbyn eu contract eu hunain lle bo angen

Cynhwysir yr atodlen grynhoi lawn ar gyfer yr holl opsiynau yn Atodiad 1. Noder bod hyn yn seiliedig ar restr eiddo heb ei harchwilio yn unig, a bydd yn newid ac yn destun trafodaethau unigol ar gyfer bob ysgol yn ddibynnol ar anghenion lleol,

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler Atodiad 2 (Cyfrinachol)

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd drwy'r gweithgor TGCh. Sefydlwyd hyn i weithio gyda swyddogion i sicrhau bod proses gadarn ar waith i sicrhau fod cwmpas y gwasanaeth newydd yn diwallu anghenion yr ysgol yn llawn.

Mae TGCh Canolog hefyd wedi chwarae rôl weithgar wrth gefnogi yn ystod y broses hon.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Gweithredwyd y brases dendro yn unol ar Rheolau Gweithdrefnau Contract a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r goblygiadau ariannol o ddyfarnu'r contract Rhwydwaith Gweinyddol TGCh gorfodol yn fach, gan arwain at arbediad bach yn y trefniadau cyfredol. Ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaeth oedd y brif ystyriaeth. Mae'r contract ar gyfer Rhwydwaith Cwricwlwm TGCh yn opsiynol, a bydd yr atodlen y cytunir arni'n caniatáu bob ysgol i wneud penderfyniad gwybodus.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

| | Disgrifiad o'r risg | Perchennog: | Canlyniad yr effaith | Risg gynhenid | Rheolaethau i reoli'r risg | Risg weddilliol | Camau pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Efallai na fydd pob ysgol yn dewis defnyddio'r darparwr ar gyfer rhwydwaith y cwricwlwm | Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg | Mwy o ymdrech i reoli'r gwasanaeth TGCh mewn ysgolion, a bydd yn rhaid i ysgolion ddefnyddio sawl darparwr ar gyfer y rhwydweithiau gwahanol | B4 | Rheolwyr Busnes a Chyllid ar waith i weithredu ar ran yr ysgolion a gwneud cysylltiadau rhwng darparwyr.<br><br>Roedd hyn yn gynhenid yn y gwasanaeth presennol yn barod, ond efallai y bydd yn fwy o risg gyda 2 ddarparwr allanol ar y ddau rwydwaith | C4 | Dim |
| 2 | Diffyg profiad a gwybodaeth TGCh mewn rheoli contract o fewn y Gwasanaeth Addysg | Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg | Gallai diffyg dealltwriaeth o elfennau technegol y gwasanaeth a'r contract arwain at wasanaeth â chyflenwr yn ei lywio nad ydyw'n targedu anghenion ysgol | A4 | Mae Pennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau wedi cymryd y darn hwn o waith fel blaenoriaeth. | C4 | Ystyrir gofynion staffio'r dyfodol ar gyfer cefnogaeth rheoli prosiect o fewn Gwasanaethau Addysg |
| 3 | Amrywiaethau i'r rhestr eiddo a ddyfynnir yn y tendr | Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg | Efallai y bydd costau terfynol yn amrywio hyd nes y gellir dilysu'r rhestr eiddo'n gywir gyda phob ysgol | A4 | Rhestr eiddo'r Adran Weinyddol wedi'i hailwirio gan TGCh Canolog a rhestr eiddo cwricwlwm wedi'i chasglu o ysgolion yn uniongyrchol lle bo modd. | C4 | Bydd y darparwr yn cynnal archwiliad llawn o'r rhestr eiddo pan ddyfernir y contract i sicrhau bod costau mor gywir â phosibl |

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion a Rheoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010, sy'n llywodraethu pwerau gwneud penderfyniad ysgolion, ond sy'n rhoi'r pŵer i ALl ymyrryd lle bo angen.